

HELP I OSOD EICH EIDDO



Ariennir Cynllun Prydlesu Cymru (CPC) gan Lywodraeth Cymru ac fe'i rheolir gan Gyngor Sir Fynwy (Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy). Mae'r cynllun prydlesu yn gyfle ychwanegol i landlordiaid brydlesu eu heiddo i'r awdurdod lleol gyda swm rhent misol gwarantedig a rheolaeth eiddo am gyfnod rhwng pum ac ugain mlynedd. Gweithio gyda landlordiaid preifat a pherchnogion eiddo i ddarparu cartrefi o ansawdd dda yn Sir Fynwy.

Sut mae'n gweithio

Mae Cynllun Prydlesu Cymru yn cynnig -

- Prydlesau rhwng 5-20 mlynedd
- Gwarant o daliadau rhent ar gyfer hyd y brydles ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol berthnasol
- Lle bo angen, cynnig o hyd at £5000, fel grant, i ddod ag eiddo hyd at safon y cytunwyd arni a/neu i gynyddu'r sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni i lefel C. Mae cyllid grant ychwanegol o hyd at £25,000 ar gael ar gyfer eiddo gwag
- Atgyweirio unrhyw ddifrod i'r eiddo a wnaed gan denantiaid dan sylw, yn amodol ar draul resymol, ac atebolrwydd y landlord am ddiffygion strwythurol. Byddai hyn yn ffurfio amod o'r brydles
- Gwarant o gefnogaeth briodol i denantiaid, drwy gydol oes y brydles.

Beth all y tîm ei wneud i chi?

Gyda'r Cynllun Prydlesu Cymru (CPC) ac yn unol â Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy gallwn gynnig gwasanaeth rheoli eiddo a deiliad cyswllt o ansawdd uchel i chi. Fel ein partner busnes yn y cynllun prydlesu gall Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy hefyd gynnig i chi:

- Rhent gwarantedig hyd yn oed os nad yw'r eiddo'n wag (yn ystod cyfnodau gwag)
- Rhestr eiddo ysgrifenedig lawn a ffotograffau wedi'u tynnu o'r eiddo cyn ei feddiannu
- Archwiliadau rheolaidd o'r eiddo gan ein tîm tai lleol
- Gwarantu dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol (gan ystyried rhywfaint o golled oherwydd traul)
- Gwarant o feddiant gwag ar ddiwedd y brydles



Am ragor o wybodaeth: Ffôn: 01873 735426
E-bost: MLS@monmouthshire.gov.uk



HELP I OSOD EICH EIDDO



Beth sydd angen i landlordiaid ei wneud i ymuno â Chynllun Prydlesu Cymru

I brydlesu eich eiddo ar 'Gynllun Prydlesu Cymru' bydd angen i chi sicrhau y gallwch:

- Ddarparu Tystysgrifau Diogelwch Nwy, Diogelwch Trydanol a Pherfformiad Ynni
- Ddarparu Yswiriant Adeiladau (gan gynnwys Atebolrwydd Cyhoeddus)
- Lle bo hynny'n berthnasol, rhoi caniatâd ysgrifenedig h.y. llythyr/e-bost, yn cadarnhau bod eich benthycwr yn cytuno i chi brydlesu'r eiddo trwy'r Cynllun
- Fodloni gofynion gorfodol o safon eiddo a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (mae grant ar gael i ddod ag eiddo i'r safon y cytunwyd arni)
- Ddarparu copi o Gofrestrfa Tir i gadarnhau perchnogaeth eiddo
- Byddwch yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eiddo ac unrhyw waith allanol i'r eiddo.

Eiddo Gwag Tymor Hir

Os yw eiddo wedi bod yn wag am gyfnod o 6 mis neu fwy yna mae'n cael ei ddsbarthu fel 'eiddo gwag'. Gall eiddo gwag gael ei ddwyn ar y cynllun yn unol â'r un telerau a'r amodau ag unrhyw eiddo arall.

- Bydd eiddo gwag yn gymwys i gael gwerthoedd ariannu grant uwch mewn perthynas â'r cymhelliad adnewyddu. Yn hytrach na bod yn gymwys i gael hyd at £5000 mewn cyllid grant i ddod â'r eiddo'n safonol neu fodloni gradd 'C' y Dystysgrif Perfformiad Ynni, bydd eiddo yn gymwys i gael hyd at £25,000 fel y nodir yn y tabl isod.

Er mwyn cydnabod yr enillion ar fuddsoddiad bydd swm y grant y gall perchennog eiddo ei dderbyn yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog yr eiddo gytuno i dymor prydles hirach fel a ganlyn

Cymhelliad adnewyddu	Isafswm hyd y brydles	Ad-daliad grant yn ddiodyn
£0 - £9,999	5 mlynedd	100% i'w ad-dalu
£10,000 - £14,999	10 mlynedd	Diffygion rhwng blwyddyn 6-25 swm ad-dalu i fod yn gyfran uwch na £10,000 gan leihau £1,000 y flwyddyn.
£15,000 - £19,999	15 mlynedd	
£20,000 - £25,000	20 mlynedd	

Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb



Am ragor o wybodaeth: Ffôn: 01873 735426
E-bost: MLS@monmouthshire.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

